

Ffolio 011013

TELERAU AC
AMODAU LLAWN

1. Rhaid i ymgeiswyr i'r Ffolio fod yn 18 oed neu'n hŷn ar y dyddiad comisiynu ar gyfer ceisiadau i'r cylch y gwneir cais amdano. Rhaid iddynt fod yn breswlydd yn y DU ac yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd.
2. Tystiolaeth o deilyngdod artistig, gwreiddioldeb a dichonoldeb fydd prif ystyriaeth y panel ymgeisio ynghyd â'r cydbwysedd syniadau a gomisiynir yn gyffredinol.
3. Ni fydd pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael ei ddewis i'w gynhyrchu, ond byddant yn dal i fynd drwy'r camau hyfforddiant datblygiad proffesiynol.
4. Ni fydd pob ymgeisydd llwyddiannus sydd wedi'i gomisiynu i gynhyrchu gwaith yn cael ei drosglwyddo neu ei gynnwys ar wasanaethau'r BBC.
5. Dim ond eich cais i Ffolio y mae'r telerau ac amodau hyn yn rheoli. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd yn ofynnol i chi ymrwymo i gytundeb trwydded gyda'r BBC, a fydd yn rhoi Hawliau Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Cynnwys i'r BBC, gan gynnwys y Rhediad Cyntaf / Detholrwydd am 12 mis o'r dyddiad cyflwyno neu 3 mis ar ôl y dyddiad darlledu, p'un bynnag a ddaw gyntaf.
6. Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus hyrwyddo'r prosiect, bod ar gael ar gyfer cyfweiliadau a chymryd rhan mewn digwyddiadau fel derbyniadau, gweithgareddau'r wasg a lansiadau ar gyfer Ffolio.
7. Rhaid i bob ymgeisydd ar y rhestr fer sicrhau eu bod ar gael ar gyfer ffilmio a dogfennu eu gwaith ac ar gyfer unrhyw weithgaredd golygyddol cysylltiedig.
8. Rhaid i'r rhai sy'n derbyn comisiwn Ffolio gydnabod cefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ar bob achlysur posibl/perthnasol gan gynnwys cydnabyddiaeth fel prif gyllidwr yr allbwn/prosiect terfynol ac ar unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar gyfer eich prosiect.
9. O ran diogelu data, bydd ffilm Cymru Wales yn defnyddio manylion personol pob ymgeisydd at ddibenion gweinyddu'r cais hwn.
10. Gall Ffilm Cymru Wales, BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ddefnyddio enw, ffotograff a chais yr ymgeiswyr llwyddiannus at ddibenion cyhoeddusrwydd. Mae'r gwneuthurwyr ffilmiau a ddewiswyd yn cytuno i Ffilm Cymru Wales, BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ddefnyddio eu henw a'u tebygrwydd at ddibenion hysbysebu a chyhoeddusrwydd mewn perthynas â Ffolio heb dâl ychwanegol.
11. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd llwyddiannus yw unrhyw wariant yr aethpwyd iddo neu yr ymrwymwyd iddo cyn i gomisiwn gael ei roi.
12. Penderfyniad y beirniaid yn unig fydd dethol y prosiectau buddugol. Mae canlyniad penderfyniad y beirniaid yn derfynol. Ni fydd hawl i apelio os nad yw'r ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus. Bydd Ffolio yn rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ar y rhestr fer.
13. Rhaid i'r ymgeiswyr gadw at y telerau ac amodau a pheidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r prosiect heb ganiatâd ysgrifenedig Calling the Shots ymlaen llaw. Os bydd ymgeisydd yn rhoi unrhyw wybodaeth anwir neu gamarweiniol yn fwriadol, caiff yr ymgeisydd ei dynnu'n ôl neu, os yw'r comisiwn eisoes wedi'i roi, bydd gofyn iddynt dalu unrhyw arian a roddwyd yn ôl.
14. Dim ond un cais a ganiateir i bob cylch Ffolio.
15. Os oes gennych gynrychiolaeth fasnachol, rhaid i chi nodi hyn yn eich cais.
16. Nid yw'r canlynol yn gymwys ar gyfer Ffolio:
 - prosiectau a fydd yn defnyddio'r gronfa ar gyfer prynu cyfarpar yn unig;
 - prosiectau a fydd wedi dechrau ffilmio neu recordio neu wedi'u cwblhau cyn i'r cais gael ei asesu;
 - digwyddiadau codi arian;
 - gweithgareddau at ddibenion addysg ffurfiol;
 - prosiectau gan unigolion creadigol sydd eisoes wedi cyfarwyddo ffilm neu raglen a gafodd ei hariannu a/neu ei sgrinio gan sefydliad yn y diwydiant ffilm neu deledu.